

*Cwmpas y Cynllun Gweithredu:*

Mae'r cynllun gweithredu hwn yn trafod coetiroedd gwlyb<sup>1</sup>, cynefin blaenoriaeth CGB y DU, sy'n digwydd ar briddoedd sy'n draenio'n wael neu sydd yn dymhorol wlyb, mewn gwastatiroedd llifogydd, mewn sgydau ar ochr dyffrynnoedd ac mewn mannau gwlyb megis corsydd a phorfeydd gwlyb. Fel arfer y wernen *Alnus glutinosa*, helygen *Salix spp.* neu'r fedwen *Betula spp.* yw'r prif rywogaethau o goed a geir mewn coetir gwlyb. Gall ffiniau gyda choetir sych fod wedi eu diffinio'n glir neu efallai ddigwydd yn fwy graddol, a gallant hefyd (ond ddim bob tro) newid dros amser trwy brosesau o olyniaeth, yn dibynnu ar amodau hydrolegol ac ymdriniaeth y coed a'r tir cyfagos. Felly mae coetir gwlyb i'w weld yn aml mewn mosaigau gyda mathau cynefin coedlan eraill, ac mewn cynefinoedd corslyd gwlyb fel corsydd. Yn aml, mae coed gwern ar lethrau yn bodoli fel mosäig neu glytiau bychan gyda choed derw'r ucheldir a choed ynn cymysg yr ucheldir.



## 1. STATWS PRESENNOL

### 1.1 Deddfwriaeth a Statws blaenoriaeth

Rhyngwladol	Cyfarwydddeb Cynefinoedd (Atodiad I) <sup>a</sup>
DU a Chymru	Deddfwriaeth SoDdGA <sup>b</sup> (rhai coetir gwlyb) Deddfwriaeth Gorchymyn Gwarchod Coed (GGC) <sup>c</sup> Blaenoriaeth CGB y DU Rhestr S74 Cymru <sup>d</sup>
Gwynedd	CGB Eryri

### 1.2 Statws yng Nghymru a thu hwnt

Mae coetiroedd gwlyb i'w cael drwy Ewrop, ac mae nifer o fathau ohonynt â chysylltiad agos â'r rhai a geir yn y DU. Mae coetiroedd gwastatir llifogydd darniog ledled Ewrop, er bod enghreifftiau sylweddol yn parhau ar hyd rhai afonydd.

Mae coetiroedd gwlyb ar hyd a lled y DU ond mae gwahanol fathau yn aml i'w canfod mewn ardal leol yn unig. Tu allan i Gymru, gwelir dwysedd o goetiroedd gwlyb mewn rhannau o East Anglia, Sir Amwythig a Sir Gaer, tra bod coetiroedd corsio i'w cael gan fwyaf yn yr Alban. Mae fforestydd gwastatiroedd llifogydd yn brin ac wedi eu darnio drwy'r wlad.

Amcangyfrifir mai arwynebedd cyfan coetir gwlyb yn y DU yw 50,000 i 70,000 ha, gydag oddeutu 10% yng Nghymru<sup>2</sup>. Mae gan Gymru gyfrifoldeb arbennig am fathau o goed gwern ar lethrau, amrywiaethau cefnforol o goetiroedd corsio, ac am ddiogelu ac ail-greu coetiroedd gwastatir llifogydd pryd bynnag y bo'n bosib. Nodwyd fod dwyseddau nodedig o goetiroedd gwlyb wedi eu cofnodi ar gyfer ardaloedd CGB Lleol ym Mhowys, sir Gaerfyrddin, Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Eryri, Gwynedd a rhannau o Forgannwg.

<sup>a</sup> "fforestydd llifwaddodol gydag *Alnus glutinosa* a *Fraxinus excelsior*" a "Choetir Corsio" wedi eu rhestru yn Atodiad I o Gyfarwyddiaeth Cynefinoedd" - Cyfarwyddyd Cyngor 92/43/EEC o 21 Mai 1992 ar gadwraeth cynefinoedd naturiol ac o blanhigion ac anifeiliaid gwyllt.

<sup>b</sup> Deddf Bywyd Gwyllt a Cefn Gwlad 1981, Deddf Cefn Gwlad a Hawl Tramwy (CRoW) 2000

<sup>c</sup> Deddf Asesu Amgylcheddol a Chynllunio 1979

<sup>d</sup> Llywodraeth Cynulliad Cymru, Mynd yn Wylt yng Nghymru - Rhestr o Rywogaethau a Chynefinoedd Pwysig Iawn er mwyn Gwarchod Amrywiaeth Fiolegol. Hawlfraint y Goron, 2003.

### 1.3 Statws yng Ngwynedd<sup>e</sup>

Amcangyfrifir bod 860ha o goetir gwlyb yng Ngwynedd, a fewn ystod o 700 i 1100ha<sup>2</sup> (ond gweler troednodyn<sup>f</sup>). Mae safleoedd coetir gwlyb i'w cael ar hyd a lled Gwynedd, ac yn gysylltiedig â gwastatir llifogydd afonydd, sgydau ar y llethrau, pyllau a llaid, yn aml yn digwydd fel mosäig gyda chynefinoedd eraill fel corydd a chorstiroedd. Mae'r coetir gwlyb yng ngwastatir llifogydd Afon Penrhos ger Pwllheli gyda mosäig sylweddol o goetir gwlyb, a chyda phoblogaethau o ddyfrgwn a llygod dŵr. Mae Pen Llŷn o bwysigrwydd posib i goetir gwlyb o fewn y cyd-destun Cymreig, gan fod ardaloedd digon sylweddol o goetir helygen nas gwyddom fawr amdanynt.

## 2. FFACTORAU SY'N EFFEITHIO AR Y CYNEFIN YNG NGWYNEDD

- Colli cynefin yn y gorffennol oherwydd datblygiadau tir (lonydd, tai, ayb.) neu i amaethyddiaeth.
- Mae coetiroedd gwlyb yn gynefin olyniaethol ac yn aml cânt eu dibrisio mewn rheolaeth cynefin coetir gwlyb.
- Mae rheolaeth amhriodol (fel gorbori, tanbori, dwyn pridd gan stoc ddomestig, clirio prysgoed) yn arwain at golled amrywiaeth mewn blodau ar y ddaear, llai o amrywiaeth strwythurol a llai o gyfleon i adfywio.
- Rhoi'r gorau i reoli safleoedd a oedd yn arfer cael ei goedlannu, sy'n annog olyniaeth i fathau sychach o goedlannau.
- Draenio a gostwng y lefelau trwythiad.
- Mesurau atal llifogydd a rheolaeth cyrsiau dŵr.
- Afiechyd ffytffora mewn coed gwern, afiechyd ffyngaidd sy'n cael ei gario gan ddŵr ac sydd yn aml yn farwol i goed gwern ger afonydd. Ni wyddys beth yw'r effaith ar goetiroedd gwlyb sylweddol, ond gwyddys fod yr afiechyd i'w weld ar hyd daliadau Seiont a Glaslyn.
- Coloneiddio gan rywogaeth estron ymwithgar (e.e. llysiâu'r dial ar wastadedd llifogydd Dwyfor).
- Llygredd yn yr awyr yn effeithio ar gymunedau cennau.
- Llygredd a gofer gwrtaith o diroedd o gwmpas.

## 3. CGR A CGC CYSYLLTIEDIG YNG NGWYNEDD

Coetiroedd derw yr ucheldir, Coetiroedd ynn cymysg yr ucheldir, Coetiroedd prysgwydd, Coridorau afonydd, Gwlybtiroedd.

Dyfrgi, Ystlum trwyn pedol llai, Ystlumod, Cnocell werdd, Madfallod y dŵr.


<sup>e</sup> O fewn y ddogfen yma mae'r term 'Gwynedd' yn cyfeirio at arddoedd tu allan i Barc Cenedlaethol Eryri, oni bai ei fod yn nodi i'r gwrthwyneb

<sup>f</sup> dylid trin yr amcangyfrifon hyn gyda gofal arbennig, oherwydd mae'n annhebygol fod coetiroedd gwlyb wedi eu harchwilio mor drylwyr â mathau eraill o goetiroedd.

## 4. CAMAU GWEITHREDU PRESENNOL YNG NGWYNEDD

### 4.1 Diogelu safleoedd a chynefinoedd

- Mae nifer o goetiroedd gwlyb Gwynedd wedi eu dynodi fel SoDGAau, coedlan Pont Croesor ar Gorstir Glaslyn (coetir ynn gwern), Llyn Ystumlyn (er bod llawer wedi ei dynnu ymaith i greu gwely hesg), Coed Elernion a Llyn Cororian. Mae rhai coetiroedd gwlyb yn cael eu diogelu gan ddyodiad GNC, dan ddeddfwriaeth GGC, yn gorwedd tu mewn i ardaloedd Cadwraeth neu wedi eu dynodi fel safleoedd Bywyd Gwyllt Posib.
- Nid oes gan rhai safleoedd pwysig amddiffyniad cyfreithiol.
- Mae angen trwyddedau torri coed CCth i dorri mwy na 5 metr ciwbig o goed mewn unrhyw un chwarter.
- Mae rheoliadau Asesiad ar yr Effaith Amgylcheddol (AEA) - tir heb ei blannu ayb.<sup>9</sup> - yn cynnig peth amddiffyniad yn erbyn draenio a gwella safleoedd dros 1 ha.



### 4.2 Rheoli a Rhaglenni Gweithredu

- Gellir cael cymorth grant trwy Gynllun Grant Coedlannau'r Comisiwn Coedwigaeth er mwyn rheoli ac ymestyn y cynefin hwn. Mae'r Comisiwn Coedwigaeth hefyd yn darparu Cynlluniau Rheoli Coetiroedd Cynhenid. O dan gynllun Gwell Coetiroedd i Gymru sydd i'w gyflwyno yn 2005, bydd y system grant yn cael ei hadolygu a grantiau'n cael eu seilio ar gynlluniau rheolaeth tymor hir.
- Ar hyn o bryd, mae angen Cynlluniau Rheoli Coetiroedd Cynhenid ar gyfer holl ffermydd Tir Gofal sydd gyda choedlannau mwy na 3 ha. Gellir cyllido Cynlluniau Rheoli Coetiroedd Cynhenid ar sail wirfoddol ar gyfer ardaloedd eraill o goedlannau, neu ar ffermydd Tir Gofal sydd gyda choedlannau llai.
- Gall cytundebau o dan gynlluniau Tir Gofal a rhai amaeth-gadwriaethol eraill gynnwys amod sy'n gwahardd stoc o'r coedlannau
- Disgwylir i bob coedlan gael ei rheoli yn unol â Safon Coedwigaeth DU 1998, safon genedlaethol ar gyfer rheolaeth fforestydd cynaliadwy; gellir hefyd gael dynodiad cynladwyaeth ychwanegol sydd wedi ei gytuno gan y diwydiant, sef Cynllun Sicrwydd Coedlannau DU.
- Mae holl goetiroedd y Cynulliad Cenedlaethol (sef coedwigoedd y Comisiwn Coedwigaeth yng Nghymru) wedi eu dynodi'n annibynnol i fod o Safon Coedwigaeth DU 1998.
- Mae Strategaeth Coedlannau Llywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) i Gymru yn amlinellu'r nod ar gyfer rheolaeth gynaliadwy o goed Cymru i'r dyfodol, sy'n cael ei hybu'n lleol gan Coed Cymru
- Mae menter coedlannau Coed Cymru wedi bod yn flaenllaw yn galluogi rheolaeth briodol o goedlannau cynhenid ar lefel leol, gyda chefnogaeth gan, ac yn defnyddio cymorth grant gan y Comisiwn Coedwigaeth, awdurdodau lleol ac eraill.

<sup>9</sup> Rheoliadau Astudiaeth Effaith Amgylcheddol ynghylch defnydd tir heb ei blannu ac ardaloedd hanner naturiol ar gyfer pwrpasau amaethyddol dwys

- Lanswyd grŵp clwstwr lleol o Fenter Addysg Fforestydd ("Hadau") yn 2001, wedi ei leoli ym Prifysgol Cymru bangor
- Mae Cyngor Gwynedd yn rhedeg meithrinfa blanhigion yng Nglynllifon gyda'r amcan o dyfu a hybu defnydd stoc tarddiad lleol.

### 4.3 Arolygon, ymchwilio a monitro

- Mae Cyngor Cefn Gwlad Cymru ar hyn o bryd wrthi'n mesur maint yr ardaloedd presennol o goetiroedd trwy raglen arolwg a chofnodion.
- Rhaid cael arolygon ecolegol fel rhan o'r broses Cynlluniau Rheoli Coetiroedd Cynhenid

## 5. AMCANION Y CYNLLUN GWEITHREDU

1. I gynyddu ein gwybodaeth ynghylch dosbarthiad ac ansawdd coetiroedd gwlyb yng Ngwynedd.
2. I gynnal yr ardal bresennol o goetir gwlyb a sicrhau ei reolaeth briodol tymor-hir.
3. I ymhelaethu / adfer ardaloedd o goetiroedd gwlyb ble y bo'n briodol, er mwyn cynyddu yr ardal gyfan o goetiroedd gwlyb o tua 10%<sup>h</sup>

## 6. CAMAU ARFAETHEDIG

Côd	Gweithredu	Partner(iaid) <sup>i</sup>
<b>Polisi a Deddfwriaeth</b>		
1	Ystyried sefydlu gweithgor ar y cyd gyda APCE i sicrhau gweithrediad effeithiol cynlluniau coedlannau Eryri a Gwynedd TARGED: erbyn 2005	CG, APCE, CCGC, CCh
2	Defnyddio amodau cynllunio i sicrhau fod datblygiadau manau sensitif yn cyd-fynd â chadwraeth rhywogaethau allweddol cysylltiedig TARGED: Cyfredol	CG
3	Sicrhau fod yr holl enghreifftiau o'r coeddir hwn sy'n cwrdd â'r meini prawf perthnasol yn cael eu dynodi'r Safleoedd Bywyd Gwyllt TARGED: Cychwyn ar y broses ddyndi	CG, CBNGC, CCh, CCGC, CBNGC
4	Sicrhau fod unrhyw gynlluniau grant a weinyddir gan sefydliadau partneriaethol e.e. grantiau CCh, Tir Gofal, yn gosod amod fod rhaid i unrhyw goed a blannir fod yn rhai o stoc tarddiad lleol ac yn cael eu cynhyrchu'n gynaliadwy ac yn cymryd i ystyriaeth lawn anghenion rheoli'r coetiroedd gwlyb. TARGED: Cyfredol	CG, CCGC, CCh, ADC, AACChG
<b>Rheoli a Diogelu Rhywogaethau / Cynefinoedd</b>		
5	Hybu a chefnogi cynlluniau grantiau yn cynnwys grantiau CCh, ble bo hynny'n briodol i sicrhau rheolaeth ffafriol, adfer coetiroedd gwlyb, gan gymryd i ystyriaeth anghenion rhywogaethau CGBLL cysylltiedig TARGED: Rheolaeth ffafriol o 75% erbyn 2009 Adfer / creu 100ha erbyn 2009	CC, CCGC, CTBG, ACChG, AyA, CCh, UAC, GCFfBG, CG, UCFF
6	Chwilio am gyllid ar gyfer rheoli tir trwy ddatblygu cynllun grant bioamrywiaeth, a fyddai'n cynnwys grantiau ar gyfer rheolaeth, adferiad a chread briodol o Goetiroedd gwlyb. TARGED: erbyn2005	CG,partneriaiid perthnasol
7	Diogelu'r lefel trwythiad o gwmpas safleoedd cydnabyddedig gydag asesiad ofalus o weithiau amddiffyn rhag llifogydd neu ddraenio, yn rhai arferol ac anarferol TARGED: cyfredol	AAC

<sup>h</sup> Yn sicrhau nad yw hyn yn niweidiol i unrhyw gynefin ac / neu rywogaeth CGB Gwynedd arall. Yn arbennig, rhaid i weithrediad y Cynllun Gweithredu hwn cael ei integreiddio'n agos gyda chyflenwi CGC Coetiroedd Gwlyb.

<sup>i</sup> Mae'r prif bartner ar gyfer y gweithrediad hwn ync ael ei ddangos mewn ysgrifed ddu, gweler adran 7.2 am eglurhad o'r byrfodau

<b>Cyngor</b>		
8	Parhau i gynnig cyngor ar ddefnydd dulliau naturiol o sefydlu coedlannau a'r defnydd o ddeunyddiau plannu o darddiad lleol TARGED: Cyfredol	CC, CCGC, CCTh, CG, CBNGC
<b>Arolwg, ymchwil a monitro</b>		
9	Adnabod yr holl Coetiroedd gwlyb drwy gofnodion o'r hdl ddata sydd ar gael (arolygon bywyd gwyllt ac arolygon Cam Un) a gwaith archwilio, a thargeddu safleoedd allweddol ar gyfer rheoli, adfer gan cymryd i ystyriaeth yr argymhellion a amlinellir yn y "Priority Habitats of Wales", 2003 (gwybodaeth i'w gael ei storio yn e-legronig TARGED: Erbyn 2006	CG, CC, CCGC, CCTh, CEH, PCB, CBNGC
10	Adnabod Coedtirowedd gwlyb sy'n cynnig ffynonellau posib o hadau addas ar gyfer gweithredu ac ehangu Glynllifon ac o bosib meithrinfeydd planhigion eraill sydd gyda stoc o darddiad lleol TARGED: Erbyn 2006	CC, CCGC, CEH, CCTh, CG, CBNGC, PCB
<b>Cyfathrebu a chyhoeddusrwydd</b>		
11	Parhau i gefnogi a datblygu ymhellach grŵp clwstwr CG o MAC (Hadau) TARGED: Cyfredol	MAC, partneriaid perthnasol
12	Parhau i redeg Meithrinfa Coed Cynhenid yng Nglynllifon, a thrwy hon hybu defnydd stoc o darddiad lleol a thyfu coed cynhenid o hadau ar lefel lleol TARGED: Cyfredol	CG
13	Codi ymwybyddiaeth gyhoeddus o Goetiroedd gwlyb a'u cadwraeth trwy ddiwrnodiau agored, teithiau cerdded, dehongli a digwyddiadau, e.e. Sul Casglu Hadau TARGED: Cyfredol	CCTh, CC, CG, MAF, CBNGC, CCB.

## 7 PARTNERIAID A CHYFLEON

### 7.1 Prif bartner y CGC

Comisiwn Coedwigaeth (CCTh)

### 7.2 Partneriaid allweddol

Coed Cymru (CC)

Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC)

Canolfan ar Ecolleg a Hydroleg (CEH)

Asiantaeth Amgylchedd Cymru (AA)

Cymdeithas y Tirfeddianwyr (CyT)

Adran Amgylchedd, Cynllunio a Chefn Gwlad (AACChG)

Menter Addysg Coedwigoedd (MAC)

Cyngor Gwynedd (CG)

Cymdeithas Byd Natur Gogledd Cymru (CBNGC)

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (APCE)

Cymdeithas Coedlannau Bach (CCB)

Prifysgol Cymru Bangor (PCB)

Awdurdod Datblygu Cymru (ADC)

Undeb Amaethwyr Cymru (UAC)

Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr (UCFf)

Grŵp Cyngori Ffermio a Bywyd Gwyllt (GFBG)

## 7.3 Cyfleon

Tyfwyr coed, perchnogion coedlannau, contractwyr coed a choedlannau, ysgolion, colegau, canolfannau a grwpiau cymunedol

## 8. DIOLCHIADAU

Awdur: Dave Thorpe (AAC)

Ymgynghorwyr: Mike Langley (CC), Jim Latham (CCGC), Peter Jones (CCth), Chris Wynne (CBNGC), Jill Jackson (CG)

Darluniau llinell: English Nature

## 9. BYRFODDAU

CGB: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth, CGBLL: Cynllun Gweithredu Bioamrywiaeth Lleol; CGC: Cynllun Gweithredu Cynefin, CGR: Cynllun Gweithredu Rhywogaeth. SoDdGA: Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbeinig, JNCC: Cyd-Bwyllgor Gwarchad Natur, GNG: Gwarchodfa Natur Genedlaethol.

---

<sup>1</sup> UK Biodiversity Group classification - Jackson, D.I. 2000. Guidance on the interpretation of the Biodiversity Broad Habitat Classification (terrestrial and freshwater types): Definitions and the relationship with other habitat classification. JNCC Report rhif 307

<sup>2</sup> Jones, P.S. et al, 2003. Priority habitats of Wales: a technical guide. CCGC.